Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Gwrthsafiad a pharch – datblygu cydlyniant cymunedol

## Pecyn hunanasesu 2016

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 5691 4
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2016
WG26438

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**1. Yr ysgol a'i harweinyddiaeth** **3**

**2. Dysgwyr** **7**

**3. Staff mewn rolau addysgu a chymorth** **10**

**4. Y cwricwlwm** **13**

**5. Ystadau a'r amgylchedd** **15**

**6. Y gymuned a phartneriaid** **18**

**7. Polisïau a gweithdrefnau** **20**

**8. Rheoli risgiau a chofnodi digwyddiadau** **22**

## Cyflwyniad

Mae'r pecyn hunanasesu hwn wedi'i addasu i'w gysoni â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y mae gofyn i ysgolion eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys camau gyda golwg ar siaradwyr gwadd, digwyddiadau mewn ysgolion, asesu risg a diogelu pob dysgwr mewn ysgolion ac mewn lleoliadau eraill. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ysgolion a'u dysgwyr.

Pwrpas y pecyn hwn, y dylid ei ddefnyddio gyda'r canllawiau diwygiedig *Gwrthsafiad a pharch – datblygu cydlyniant cymunedol*[1], yw galluogi ysgolion yng Nghymru i asesu i ba raddau y maen nhw'n cydymffurfio â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r arferion gorau er mwyn cynnal cymuned ddysgu ddiogel. Gall ysgolion ddefnyddio'r pecyn hwn yn rhestr wirio i weld pa mor barod ydyn nhw ac i ba raddau y maen nhw'n cydymffurfio'n gyffredinol. Mae'n cynnig cyfleoedd i baratoi cynlluniau a'u rhoi ar waith i ymateb i fylchau yn eu perfformiad ac mewn unrhyw feysydd cyfrifoldeb sy'n cael eu hesgeuluso. Mae'n bwysig bod ysgolion a'u cyrff llywodraethu'n blaenoriaethu eu cynlluniau diogelu er mwyn cydymffurfio â rhannau hanfodol y Ddeddf i gynnal cymuned ddysgu ddiogel.

---

### I ba raddau mae'ch ysgol chi'n llwyddo?

Wrth ymateb i bob un o'r cwestiynau, dylech ddangos lefel cydymffurfio'ch ysgol â'r arferion gorau wrth greu cymuned ddysgu ddiogel, yn ôl y meini prawf canlynol ar sail system coch, oren a gwyrdd (COG).

- Coch – diffyg cydymffurfio sylweddol â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r arferion gorau: mae gofyn adolygu'r trefniadau presennol o'u cwr.
- Oren – cydymffurfio'n rhannol â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r arferion gorau: mae gofyn nifer o gamau a gwelliannau ychwanegol i weithdrefnau er mwyn cydymffurfio'n llwyr.
- Gwyrdd – cydymffurfio'n llwyr â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r arferion gorau.

---

[1] www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/respect-and-resilience-2015/?lang=cy

| 1. Yr ysgol a'i harweinyddiaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** | **Cyfeirnod FfAC** | **Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin** | **Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig)** | **COG** |
| **Ymrwymiad yr ysgol** | | | | |
| A yw'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd creu a chynnal cymunedau dysgu diogel a rheoli'r risgiau i'r ysgol a'i dysgwyr fel agwedd bwysig ar arwain yr ysgol? | **3.1.2** | **Pa mor dda yw gwaith ein llywodraethwyr?**<br><br>*I ba raddau y mae ein llywodraethwyr yn deall eu rôl?*<br><br>*I ba raddau y maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau statudol ac yn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol?* | *Tystiolaeth allweddol o ymrwymiad ysgol yw'r camau a gymerir gan y corff llywodraethu a'r pennaeth ac effaith y camau hynny ar agweddau, ymddygiadau a'r camau a gymerir gan bob aelod o'r staff ac yn enwedig gan y staff dynodedig sydd â rolau diogelu ac* **Prevent***.*<br><br>*Yn gefn i hyn, mae'r prosesau cefnogol, y gwaith papur a rheoli risg sy'n cynnwys agendâu, cofnodion, disgrifiadau swydd, datblygiad proffesiynol parhaus, contractau rhwng y cartref a'r ysgol, sefydlu, hyfforddi, asesu risg, monitro, cymorth a phrosesau disgyblu.* | |
| A yw'r llywodraethwyr yn deall terfynau eu rôl ac a ydynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hymddygiad? | | | | |
| A yw'r prif gyfrifoldebau am ddiogelu ac asesu risg wedi'u dyrannu i unigolyn diogelu dynodedig sy'n un pwynt cyswllt ar gyfer **Prevent** ac i lywodraethwyr a staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol? | | | | |
| A yw'r ysgol gyda'i phartneriaid yn ei gweld ei hun, yn ei hyrwyddo'i hun ac yn ei chyflwyno'i hun fel cymuned gydlynol, gyda dyletswydd i adeiladu a chynnal cysylltiadau clos a chefnogol â'i haelodau gan ddangos parch? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r ysgol yn herio unrhyw ymddygiad sy'n niweidio gallu llywodraethwyr, staff, unigolion a grwpiau i gydweithio'n ddiogel? | | | | |
| **Gwerthoedd** | | | | |
| A yw gwerthoedd yr ysgol yn gyson â gwerthoedd craidd democratiaeth; rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch pobl at ei gilydd a goddefgarwch at bobl sy'n arddel crefyddau a chredoau gwahanol? | **2.4.1** | **I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i werthuso ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein hysgol?**<br><br>*A ydyn ni wedi sefydlu ethos yn yr ysgol sy'n gynhwysol ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol?*<br><br>*A ydyn ni'n ystyried amrywiaeth cefndiroedd dysgwyr ac yn rhoi gwerth ar hynny?* | *Effaith ethos a gwerthoedd yr ysgol ar agweddau pob aelod o'r staff a'r camau a gymerir ganddynt, sy'n dangos hyder yn y polisïau sy'n gefn i'r gwerthoedd craidd, perchnogaeth arnynt ac ymrwymiad iddynt.*<br><br>*Mae'r ymrwymiad hwn yn estyn i sefydliadau eraill y mae'r ysgol yn gysylltiedig â nhw.*<br><br>*Bydd prosesau'n galluogi uwch dîmau rheoli i reoli risg, monitro sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith ac effaith hynny ar ymddygiad, gyda phwyslais ar gefnogi dysgwyr agored i niwed.* | |
| A yw gwerthoedd yr ysgol yn cael eu cyfleu'n effeithiol i bob aelod o gymuned yr ysgol a'u perchnogi ganddynt, gan gynnwys y dysgwyr, yr athrawon, staff cymorth, arweinyddion a llywodraethwyr? A yw hyn yn estyn i sefydliadau eraill y mae'r ysgol yn gysylltiedig â nhw? | | | | |
| A yw'r prif bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg yn gyson â'r gwerthoedd hyn ac yn diwallu gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw ein  gweithdrefnau a'n diwylliant yn gydnaws â rhannu gwybodaeth a phryderon gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i fod yn agored i niwed, newidiadau mewn ymddygiad a radicaleiddio? | | | | |
| **Arweiniad** | | | | |
| A yw arweinyddion yr ysgol yn dangos ymrwymiad clir a chyson â gwerthoedd yr ysgol? | **3.1.1** | **Pa mor dda yw'r cyfeiriad strategol a beth yw'r effaith ar ein harweinyddiaeth?**<br><br>*A oes gennym nodau, clir, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr?* | *Mae’r camau a gymerir gan arweinwyr a llywodraethwyr a’u hymddygiad yn dangos gwerthoedd yr ysgol a’u disgwyliadau gyda phwyslais clir ar ddiogelu.*<br><br>*Bydd tystiolaeth o'r disgwyliadau ac o fonitro perfformiad mewn papurau, gan gynnwys agendâu, cofnodion a chyfathrebu'r uwch dîm rheoli a’r corff llywodraethu* | |
| A yw arweinyddion yr ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hannog i chwarae rhan lawn yng nghymuned yr ysgol, yn rhannu'r gofal a'r cyfrifoldeb dros eraill? | **2.3.1** | **I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i ddarparu ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?**<br><br>*A yw ein polisi gwrth-fwlio'n atal ac yn dileu rhywiaeth, hiliaeth a diffyg goddefgarwch i amrywiaeth?* | *Tystiolaeth bod y dysgwyr yn cymryd rhan, llais y dysgwr, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)/cymorth bugeiliol ac effaith hynny.* | |
| A yw arweinyddion yr ysgol yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu defnyddio i ddiogelu staff, yn enwedig y rheini sy'n gwneud ymchwil ar 'derfysgaeth a gwrthderfysgaeth'? | | *A ydyn ni'n hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu* | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Os oes unrhyw beryglon neu broblemau’n gysylltiedig â diogelu, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â throseddau casineb/aflonyddu a fydd y rheini’n cael eu cofnodi’n ddi-oed i'r unigolyn dynodedig sy’n gyfrifol am ddiogelu ac i'r asiantaethau perthnasol? A fydd camau'n cael eu cofnodi i'r ysgol ac yn cael eu hadolygu ganddi? | | *dysgwyr i wahaniaethu rhwng da a drwg?*<br><br>*A yw ein dysgwyr yn cyfrannu at wneud penderfyniadau yn yr ysgol?* | | |
| A yw'r ysgol yn nodi ei disgwyliadau ac yn monitro perfformiad gyda golwg ar wrthsafiad a pharch? | | | | |

| 2. Dysgwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** | **Cyfeirnod FfAC** | **Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin** | **Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig)** | **COG** |
| **Diogelu** | | | | |
| A yw diogelu dysgwyr wrth galon diwylliant yr ysgol o ran sicrhau diogelwch pob aelod o'r gymuned ddysgu? | **2.3.3** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*A yw ein trefniadau ar gyfer diogelu plant yn briodol ac a ydyn ni'n cydymffurfio â'r arferion gorau?* | *Mae dysgu ac addysgu'n datblygu dealltwriaeth o ddiogelwch y rhyngrwyd, sgiliau meddwl beirniadol a gwrthsafiad dysgwyr.* | |
| A yw'r polisïau a'r canllawiau ynghylch diogelu'n cynnwys cyfeiriadau at beryglon radicaleiddio a allai arwain at eithafiaeth dreisgar? | | | *Mae polisïau a chanllawiau'n gynhwysfawr o ran ymdrin â'r bygythiadau posibl i ddysgwyr gan gynnwys radicaleiddio.* | |
| **Gofal bugeiliol** | | | | |
| A oes gan yr ysgol brosesau i adnabod dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, cyn ac yn ystod cyfnod eu derbyn i'r ysgol | **2.3.3** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*A ydym yn adnabod plant mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol drwy gynnal cofnod o addasrwydd y staff a sicrhau bod* | *Mae'r prosesau ymgeisio a derbyn yn asesu pa mor agored i niwed yw'r dysgwyr ac yn ymateb i hynny.* | |
| A yw'r ysgol yn darparu gofal a chymorth priodol ac yn sicrhau eiriolaeth i ddysgwyr agored i niwed? | | | *Mae gofal a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr agored i niwed, ac mae'n cael ei gofnodi a'i adolygu. Mae'r prosesau'n sicrhau* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw mecanweithiau cymorth yr ysgol yn effeithiol o ran galluogi pob dysgwr i sicrhau'r budd mwyaf yn sgil dysgu yn yr ysgol? | | *trefniadau priodol ar waith i amddiffyn plant?* | *bod cymorth ar gael i ddysgwyr agored i niwed.*<br><br>*Tystiolaeth bod dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus yn trafod ac yn cofnodi pryderon a bod hyn yn meithrin gwrthsafiad.* | |
| **Ymgysylltu â dysgwyr** | | | | |
| A yw'r gweithdrefnau derbyn yn sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosibl rhag derbyn dysgwyr i'r ysgol? | **2.3.1**<br><br>**2.4.1** | **I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i ddarparu ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?**<br><br>*I ba raddau y mae'r polisïau i hybu ymddygiad da ac i atal gwaharddiadau'n cael eu deall yn glir gan bob dysgwr, rhieni/gofalwyr ac athrawon, ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson?*<br><br>**I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i werthuso ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein hysgol?**<br><br>*A oes gennym gynllun cydraddoldeb sy'n cael ei ddeall yn dda sy'n hybu* | *Cymerir camau effeithiol o fewn y sefydliad a'r tu hwnt iddo i leihau rhwystrau.*<br><br>*Mae'r contract cartref-ysgol a'r prosesau disgyblu ar waith ac yn cael eu cyfleu i'r dysgwyr fel rhan o'r broses sefydlu.*<br><br>*Bydd y broses sefydlu, yn enwedig gweithgareddau i hybu cymunedau dysgu diogel yn cael ei monitro a'i hadolygu.*<br><br>*Mae cofnodion yn dangos bod dysgwyr yn hyderus i godi pryderon a'u bod yn cael sylw.*<br><br>*Mae dysgu ac addysgu'r ysgol a'i chyhoeddusrwydd yn dathlu amrywiaeth.* | |
| A oes codau ymddygiad ar waith sy'n gosod disgwyliadau clir ynghylch ymddygiad y dysgwr, yn nodi'r prosesau ar gyfer mynd i'r afael â thorri'r codau hynny, ac a ydynt yn cael eu cyfleu i'r dysgwyr? | | | | |
| A yw'r gweithgareddau'n sicrhau bod pob dysgwr yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a pharch i bob aelod o'r ysgol? | | | | |
| A gaiff dysgwyr gyfleoedd digonol, addas i gyfleu eu pryderon am eu profiadau yn yr ysgol ac a yw'r rheini'n cael sylw? | | | | |
| A yw'r sefydliad yn dathlu amrywiaeth ei gymuned ddysgu? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *cyfleoedd cyfartal a hawliau dynol?* | | |
| | **3.2.1** | **I ba raddau yr ydym yn llwyddo i hunanwerthuso, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill?**<br><br>*A ydyn ni'n annog dysgwyr i rannu eu barn a chodi materion?*<br><br>*A ydyn ni'n annog dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd drwy fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau nhw eu hunain a rhai pobl eraill, gan gynnwys eu hamgylchedd a'r cyflwr dynol?* | | |

## 3. Staff mewn rolau addysgu a chymorth

| Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Cyfeirnod FfAC | Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin | Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig) | COG |
|---|---|---|---|---|
| **Dealltwriaeth ac ymgysylltu'r staff** | | | | |
| A yw'r gweithdrefnau'n cael eu dilyn fel rhan o recriwtio staff a'r broses sefydlu i sicrhau bod y staff yn deall ac yn derbyn gwerthoedd craidd yr ysgol? | **2.3.3** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*A oes gennym drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr, ac a yw ein trefniadau'n cyflawni'r gofynion cyfreithiol?*<br><br>*A yw ein polisïau a'n gweithdrefnau'n sicrhau bod holl aelodau'r staff wedi'u hyfforddi, eu bod yn ymateb ac yn cydymffurfio â threfniadau diogelu a hyrwyddo arferion dysgu diogel a diwylliant diogel?*<br><br>*Sut y byddwn yn sicrhau bod uwch reolwyr a staff perthnasol eraill yn deall beth yw ystyr radicaleiddio a pham y gall pobl fod yn agored i gael eu denu at eithafiaeth* | *Mae'r prosesau recriwtio, dethol a sefydlu'n pwysleisio deall a derbyn y gwerthoedd craidd.*<br><br>*Mae'r rhain yn cael eu hatgyfnerthu yn y broses sefydlu, datblygiad proffesiynol parhaus, digwyddiadau a chyfathrebu. Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys diweddariadau rheolaidd am ddiogelu, sylweddoli'n fuan bod dysgwyr yn agored i niwed a chamau'n cael eu cymryd yn ddi-oed i'w diogelu.*<br><br>*Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod staff yn gyfforddus i drafod a materion yn briodol a mynd i'r afael â nhw.*<br><br>*Mae'r gwerthoedd craidd wedi bwrw gwreiddiau yn yr addysgu a'r dysgu ac mewn gweithgareddau eraill. Mae gweithdrefnau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol i* | |
| A yw'r gwerthoedd hyn yn cael eu cyfleu'n effeithiol i staff ym mhob categori? | | | | |
| A yw'r staff yn cael gwybodaeth lawn am bolisïau, yn deall eu cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni? | | | | |
| A yw datblygiad proffesiynol parhaus yn cwmpasu materion gwrthsafiad a pharch ac yn sicrhau bod staff yn gyfforddus â'r materion, ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw a herio eithafiaeth? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes gweithdrefnau disgyblu a chwyno ar waith i fynd i'r afael â staff nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau ymddygiad y cytunwyd arnynt a/neu'r gwerthoedd craidd? | | *dreisgar a therfysgaeth?*<br><br>*A yw'r staff perthnasol yn ymwybodol o'r camau sydd ar gael i atal dysgwyr rhag cael eu denu at derfysgaeth a sut mae herio'r ideoleg eithafol sydd weithiau'n gysylltiedig â hi?* | *sicrhau bod codau ymddygiad yn bwrw gwreiddiau ac, os bydd angen, yn cael eu gorfodi.* | |
| A yw'r ysgol yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fathau o ymddygiad sy'n arwain at fod yn agored i niwed a sut mae cyfleu pryderon? | | | | |
| **Staff dynodedig** | | | | |
| A oes uwch berson/bobl dynodedig sydd wedi'u hyfforddi, sy'n deall eu cyfrifoldebau am fynd i'r afael â'r materion diogelu penodol hyn? | **2.3.3** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*A yw ein polisi'n dweud:*<br>• *beth yw cyfrifoldebau'r uwch aelod o'r staff dynodedig am ddelio â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant, ac am ddarparu cyngor a chymorth i staff eraill*<br>• *cyfrifoldebau'r llywodraethwr dynodedig am amddiffyn a diogelu plant*<br>• *gweithdrefnau clir i* | *Mae gan staff dynodedig hyfforddedig y sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni eu rôl/cyfrifoldebau, mae ganddyn nhw broffil uchel yn y sefydliad ac maen nhw'n cael cymorth gan yr asiantaethau priodol.* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r staff dynodedig yn ymateb i'r pryderon gan ddysgwyr a staff, a, lle bo hynny'n briodol, cyfleu'r rhain i'r Byrddau Diogelu Plant, gan gynnwys **Channel** a'r heddlu fel sydd angen? | | *adlewyrchu'r rheoliadau presennol*<br>• *trefniadau ar gyfer hyfforddi*<br>• *llwybrau atgyfeirio?*<br><br>*A ydym wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth* **Prevent** *priodol ar gyfer o leiaf un person dynodedig? A yw hyn yn ddigonol yng nghyd-destun ein hysgol?* | | |

## 4. Y cwricwlwm

| Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Cyfeirnod FfAC | Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin | Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig) | COG |
|---|---|---|---|---|
| **Cwricwlwm, dysgu ac addysgu** | | | | |
| A yw'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i archwilio a herio materion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, hunaniaeth hil, amrywiaeth ddiwylliannol, arferion crefyddol a chred i ddatblygu meddwl beirniadol a gwrthsafiad? | **2.1.1** | **I ba raddau rydyn ni'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned?**<br><br>*I ba raddau mae'r cwricwlwm yn caniatáu i ddysgwyr gael profiadau dysgu sy'n ymgysylltiol, yn heriol ac yn ysgogol?*<br><br>*A yw'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr ddysgu am beryglon radicaleiddio ac eithafiaeth?* | *Mae cwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn meithrin y gallu i wrthsefyll ym mhob dysgwr a'i feddwl beirniadol i archwilio a deall materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.*<br><br>*Mae darparu'r cwricwlwm yn datblygu meddwl beirniadol dysgwyr, llythrennedd digidol, dealltwriaeth a gwrthsafiad. Mae'r arsylwi a'r asesu ar ddysgu, addysgu a chymorth yn cadarnhau bod sylw'n cael ei roi i amrywiaeth* | |
| A oes ystod o ddysgu, addysgu a strategaethau cymorth yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r ysgol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn galluogi i gymryd rhan mewn ystod lawn o weithgareddau dysgu? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw cynnwys a darpariaeth cwricwlwm yr ysgol yn galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain? | **2.1.4** | **I ba raddau yr ydyn ni'n darparu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang?**<br><br>*I ba raddau rydyn ni'n sicrhau bod addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn digwydd mewn pynciau unigol ar draws y cwricwlwm drwyddo draw?*<br><br>*A ydyn ni'n galluogi dysgwyr i ennill lefel briodol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ddatblygu cynaliadwy, a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd sy'n angenrheidiol er mwyn dod yn ddinesydd byd-eang?* | *ac mae'n galluogi cymryd rhan yn frwd ac ymdeimlad o gyfrifoldeb gan ddysgwyr.* | |

| **5. Ystadau a'r amgylchedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** | **Cyfeirnod FfAC** | **Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin** | **Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig)** | **COG** |
| **Amgylchedd yr ysgol** | | | | |
| A yw'r staff yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn ddiogel ac yn groesawgar ac yn sicrhau nad oes dim deunyddiau a delweddau amhriodol yn cael eu harddangos yn yr ysgol, ar lein neu ar wyneb cyhoeddus y sefydliad? | **2.3.3**<br><br>**2.4.2** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*Pa mor ddiogel yw adeiladau a safle'r ysgol?*<br><br>**I ba raddau yr ydyn ni'n llwyddo i sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr?**<br><br>*A yw'r adeilad yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda i fod yn gefn i ddysgu ac addysgu?* | *Cofnodion am fonitro deunyddiau a safonau i gynnal amgylchedd dysgu diogel gan arddangos deunyddiau a delweddau priodol.*<br><br>*Monitro safle'r ysgol i sicrhau diogelwch dysgwyr, staff ac eraill, gan gynnwys asesiad risg trwyadl ar y safle.*<br><br>*Mae protocol ar waith ar gyfer monitro i ddiogelu dysgwyr, staff ac enw da'r ysgol drwy osgoi arddangos unrhyw ddeunyddiau a delweddau amhriodol.*<br><br>*Mae datblygiad proffesiynol* | |
| A oes trefniadau ar waith i gipio, storio, trosglwyddo a chael gafael ar ddelweddau sy'n dderbyniol i'r ystod lawn o ddysgwyr? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw cyfleusterau a gwasanaethau'r ysgol, gan gynnwys arlwyo a glanhau, yn rhoi sylw i anghenion a disgwyliadau'r ystod lawn o ddysgwyr? | | | *parhaus (DPP) yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn eu cyflawni a'u bod wedi'u harfogi i ymateb i fygythiadau wrth iddynt newid.*<br><br>*Mae anghenion dysgwyr am le i weddïo a myfyrio'n cael eu diwallu. Mae'r gofod yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r arferion gorau o ran cynhwysiant ac amrywiaeth.*<br><br>*Mae datblygiad proffesiynol parhaus a diweddariadau rheolaidd yn sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn eu cyflawni.* | |
| A yw'r ysgol yn gallu ymateb i geisiadau am le i weddïo a myfyrio? Os darperir lle o'r fath, a yw'r ffordd mae wedi'i osod, y mynediad iddo a'r defnydd yn cydymffurfio â phrotocol y cytunwyd arno. A yw hyn yn cynnwys sicrhau bod testun unrhyw hysbysiadau a deunyddiau eraill sydd wedi'u hargraffu yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn gyfieithiad uniongyrchol o unrhyw iaith arall a ddefnyddir? | | | | |
| A yw staff ystadau'n gwbl ymwybodol ac ymroddedig i sicrhau diogelwch a lles dysgwyr mewn ardaloedd agored a mannau cymdeithasol? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i ddiogelu dysgwyr yn ymestyn i unrhyw lety preswyl ac ymweliadau? | | | | |

| 6. Y gymuned a phartneriaid | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** | **Cyfeirnod FfAC** | **Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin** | **Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig)** | **COG** |
| **Ymgysylltu â'r gymuned** | | | | |
| A oes strategaeth ar waith i alluogi staff allweddol i gynnal perthynas broffesiynol â chymuned yr ysgol ac asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu, Atal a Herio, yn enwedig y rheini sy'n cynrychioli grwpiau ethnig, ffydd, lleiafrifol ac agored i niwed gwahanol? | **3.3.1** | **I ba raddau y byddwn yn llwyddo i weithio'n strategol gyda'n partneriaid i wella safonau a lles dysgwyr?**<br><br>*A ydym yn gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gyda darparwyr ac asiantaethau eraill i wella safonau a lles dysgwyr unigol? A ydyn ni'n gwybod gan bwy i gael cefnogaeth i ddysgwyr a all fod yn agored i ddylanwadau radicaleiddio?*<br><br>*A ydyn ni'n glir am ein rôl a'n cyfrifoldebau yn ein partneriaethau?*<br><br>*A ydyn ni'n sicrhau bod cysylltiad da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng ein hysgolion a'n partneriaid?* | *Bydd cyfrifoldebau'n cael eu neilltuo a'u monitro i gynnal aelodaeth frwd a'r gymuned ac asiantaethau a pherthynas broffesiynol a nhw.* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r rhain yn estyn i ystod eang o bobl yn y gymuned a phartneriaid yn effeithiol? | | *A ydyn ni'n ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol, er budd ein dysgwyr?* | | |

## 7. Polisïau a gweithdrefnau

| Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Cyfeirnod FfAC | Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin | Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig) | COG |
|---|---|---|---|---|
| **Polisïau a gweithdrefnau** | | | | |
| A yw holl bolisïau’r ysgol yn gyson â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, gwerthoedd craidd yr ysgol a'r dyletswyddau sydd wedi'u rhestru yn *Cadw dysgwyr yn ddiogel*? | **2.3.1** | **I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i ddarparu ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?**<br><br>*A yw ein polisi diogelu'n rhoi sylw i'r ddyletswydd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth?*<br><br>*A oes gennyn ni drefniadau addas i gofnodi materion iechyd a diogelwch? A oes gennyn ni drefniadau effeithiol i ddelio â gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio?*<br><br>*A yw ein polisi atal bwlio'n cynnwys sut y byddwn yn atal ac yn dileu rhywiaeth, hiliaeth a homoffobia?* | *Mae prosesau ar waith ac mae polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r prosesau'n monitro'u heffaith ar greu cymuned ddysgu ddiogel yn yr ysgol.* | |
| A oes gan yr ysgol bolisïau clir ac amlwg ar gyfer rheoli chwythu chwiban a chwynion? | | | | |
| A yw'r polisïau a'r prosesau diogelu'n cofnodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau diogelu, yn enwedig unrhyw rai sy'n berthnasol i droseddau casineb/aflonyddu? | | | | |
| A oes gweithdrefnau ar waith i ddatrys gwrthdaro? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes polisi gosod a phrosesau ar waith i sicrhau bod staff sy'n rheoli gosod adeiladau yn deall sut i liniaru risgiau posibl a gwybod ymhle i geisio cyngor? | **3.1.1** | **Pa mor dda yw'r ein cyfeiriad strategol a pha ddylanwad mae ein harweinyddiaeth yn ei gael?**<br><br>*A oes gennym nodau, clir, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr?*<br><br>*A oes protocolau clir i sicrhau bod unrhyw siaradwyr sy’n ymweld yn addas ac yn cael eu goruchwylio'n briodol?* | *Mae hyn yn cynnwys pob polisi a phroses ar gyfer diogelu, e-ddiogelwch, datrys problemau a gwrthdaro, rheoli gosod, siaradwyr ar ymweliad a phroses gadarn i geisio cyngor, arweiniad a chamau di-oed gan gyrff neu asiantaethau priodol.*<br><br>*Tystiolaeth bod unrhyw wahanu dysgwyr yn digwydd am resymau addysgol cadarn.* | |
| A oes polisi a phroses ar waith ar gyfer siaradwyr sy'n ymweld a chanllawiau am rannu gwybodaeth am siaradwyr a chyfeirio manylion at asiantaethau priodol os bydd ansicrwydd ynghylch eu haddasrwydd? | | | | |
| A yw'r polisïau’n ei gwneud hi'n glir na chaiff neb orfodi gwahanu pobl ar sail rhyw ac eithrio ar gyfer addoli crefyddol? | | | | |
| A oes polisïau, gweithdrefnau a phrosesau monitro ar waith i sicrhau diogelwch TG yn yr ysgol, gan gynnwys defnyddio hidlyddion yn briodol a gwneud gwaith ymchwil? | | | | |

## 8. Rheoli risgiau a chofnodi digwyddiadau

| Cwestiynau ynglŷn â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Cyfeirnod FfAC | Cwestiwn hunanwerthuso o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin | Tystiolaeth (enghreifftiau yn unig) | COG |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoli risgiau a chofnodi digwyddiadau** | | | | |
| Sut mae'r sefydliad yn asesu ei risgiau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a sut mae'n monitro ac yn rheoli'r risgiau i gynnal cymuned ddysgu ddiogel? | **3.1.1** | **Pa mor dda yw'r ein cyfeiriad strategol a pha ddylanwad mae ein harweinyddiaeth yn ei gael?**<br><br>*A ydyn ni wedi asesu'r risg bosibl o radicaleiddio ac eithafiaeth yn ein cymuned leol? A yw'r asesiad risg ar gael ac a yw'n cael ei roi ar waith?*<br><br>*A ydyn ni'n glir am flaenoriaethau lleol ac yn arbennig am flaenoriaethau cenedlaethol ac a oes gennym farn gyson a systematig a strategaeth am sut y byddwn yn ymateb iddynt?*<br><br>*A ydyn ni'n ymateb i'r heriau addysgol sy'n codi yn yr ardal leol drwy weithio gyda'r ysgolion a'r asiantaethau eraill a'r awdurdod lleol?* | *Mae proses asesu risg yn rheoli'r risgiau ac yn llywio'r penderfyniadau ar lefel yr uwch dîm rheoli.*<br><br>*Mae'r prosesau'n effeithiol yn sicrhau bod arweinyddion a staff yn deall risgiau cyfredol i'r ysgol.*<br><br>*Mae polisïau a phrosesau'n rheoli'r risgiau ac yn ymateb i unrhyw ddigwyddiad, gan hysbysu'r awdurdod lleol a'r asiantaethau megis yr heddlu, fel sy'n briodol.*<br><br>*Mae'r prosesau'n llunio barn am staff a gwrthsafiad dysgwyr a'u meddwl beirniadol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi ar lefel yr uwch dîm rheoli.* | |
| I ba raddau y mae'r ysgol yn llwyddo i ddeall y ffactorau sy'n achosi i ddysgwyr deimlo'u bod yn cael cam ac ymddieithrio a beth i'w wneud i fynd i'r afael â'r rhain? | | | | |
| I ba raddau y mae polisïau'r ysgol yn llwyddo i feithrin gwrthsafiad a chadernid yn wyneb safbwyntiau a dylanwadau eithafol? | | | | |
| A oes gan yr ysgol gynlluniau wrth gefn ar waith i fynd i'r afael â digwyddiadau difrifol sy'n annhebygol o ddigwydd ond a allai wneud difrod mawr? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes gan yr ysgol brosesau ar waith i sicrhau ymateb prydlon a chymesur i ddigwyddiadau cymharol fach, a allai ddatblygu'n heriau difrifol oni chânt sylw effeithiol? | **2.4.1** | **I ba raddau rydyn ni'n llwyddo i werthuso ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein hysgol?**<br><br>*A ydyn ni'n ystyried amrywiaeth cefndiroedd y dysgwyr ac yn rhoi gwerth arnynt, ac yn gweithredu'n briodol ar sail y wybodaeth hon?* | *Mae asiantaethau arbenigol yn cefnogi cynlluniau argyfwng ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i ymateb i ddigwyddiadau.*<br><br>*Bydd ymatebion i ddigwyddiadau'n cael eu hadolygu er mwyn gweld unrhyw wendidau a mynd i'r afael â nhw ar lefel yr uwch dîm rheoli a gwneir ymdrech frwd a rheolaidd i ddefnyddio ffynonellau cyngor a chymorth arbenigol er mwyn adolygu gweithdrefnau.* | |
| A oes gan yr ysgol restr o bobl gyswllt allweddol y gellir troi atynt am gyngor arbenigol ac a oes ganddi weithdrefnau amlasiantaeth ar waith? | **2.3.3** | **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu?**<br><br>*A yw ein trefniadau ar gyfer diogelu plant yn briodol ac a ydym yn cydymffurfio â'r arferion gorau?*<br><br>*A ydyn ni'n gweithio'n effeithiol gyda'r cydlynydd* **Prevent** *lleol, yr heddlu lleol a'r awdurdod lleol?* | | |
| A oes gan yr ysgol gynllun argyfwng cyfoes sy'n cynnwys camau i'w cymryd ar ôl digwyddiad er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i gefnogi dysgwyr a staff? | | | | |
| A yw'r ysgol yn deall rôl monitro Estyn a rolau cyrff arolygu/monitro eraill ac a yw'r ysgol yn gallu cyflawni eu gofynion? | | | | |